Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y dilyniant: mesurau arbennig

**Ysgol Gynradd Dolgellau**
**Ffordd Pen y Cefn**
**Dolgellau**
**Gwynedd**
**LL40 2YW**

**Dyddiad yr ymweliad: Chwefror 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Kevin Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Maldwyn Pryse | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Gynradd Dolgellau wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym mis Ionawr 2015.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu Ysgol Gynradd Dolgellau oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen mesurau arbennig arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Codi safonau a sicrhau bod disgyblion mwy abl yn cyrraedd eu potensial

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae athrawon wedi addasu cynlluniau gwaith yr ysgol er mwyn sicrhau bod gweithgareddau'n ymateb i anghenion bron pob disgybl, gan gynnwys disgyblion mwy abl. Maent wedi mapio cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y meysydd dysgu a'r cwricwlwm yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae athrawon yn darparu ystod eang o brofiadau diddorol, gyda phwyslais clir ar gyflwyno cwricwlwm ymarferol sy'n ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau llafar yn llwyddiannus ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa mewn sefyllfaoedd gwahanol. Maent yn gwrando'n astud ac yn sgwrsio a thrafod gyda'u cyfoedion ac oedolion yn effeithiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn ddeallus ac yn ymateb yn eiddgar i gwestiynau athrawon yn Saesneg ac yn y Gymraeg. Maent yn cyfrannu'n dda i drafodaethau, gan fynegi barn yn glir, er enghraifft mewn dadl dros adeiladu gorsaf bŵer niwclear neu melinau gwynt yn yr ardal.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n dda. Mae disgyblion yn adnabod seiniau ac yn dechrau adeiladu geiriau o oed cynnar. Maent yn datblygu'n ddarllenwyr hyderus, gan ddarllen yn gywir ac yn rhugl. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn dangos dealltwriaeth gadarn o brif ddigwyddiadau ac yn mynegi barn amdanynt yn fyrlymus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg yn effeithiol. Maent yn darllen yn glir a chyda mynegiant addas. Wrth ymateb i amrywiaeth eang o destunau, maent yn dangos dealltwriaeth o'r prif syniadau, y digwyddiadau a'r cymeriadau. Mae llawer o ddisgyblion yn cywain gwybodaeth o fwy nag un ffynhonnell brint ac yn ei defnyddio'n llwyddiannus yn eu gwaith ysgrifenedig. Er enghraifft, maent yn cyfeirio at y testun wrth fynegi barn am fomio dinasoedd Japan ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd.

Mae medrau ysgrifennu cynnar llawer o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu dilyniant o frawddegau yn gywir er mwyn cyfleu ystyr. Maent yn defnyddio geirfa addas a diddorol ac yn defnyddio priflythrennau ac atalnodi sylfaenol yn gyson. Maent yn ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau ac i wahanol gynulleidfaoedd yn llwyddiannus, gan sillafu'r rhan

fwyaf o eiriau cyfarwydd yn gywir. Mae disgyblion mwy abl yn dechrau amrywio brawddegau ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa ac atalnodi yn eu gwaith. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ffurfio llythrennau'n gywir ac yn sillafu yn unol â'u hoed a'u gallu.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus. Maent yn addasu'u gwaith yn briodol i wahanol gynulleidfaoedd ac yn defnyddio paragraffau'n effeithiol i gyflwyno'u gwaith yn drefnus ac mewn dilyniant. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn sillafu'r mwyafrif o eiriau cyfarwydd yn gywir ac yn defnyddio atalnodi'n llwyddiannus. Er bod cynnydd cadarn ym medrau ysgrifennu estynedig rhan fwyaf y disgyblion hŷn, nid yw'r lleiafrif bob tro'n defnyddio ystod eang o eiriau dychmygus a mentrus yn eu gwaith. Fodd bynnag, mae disgyblion mwy abl yn defnyddio ystod o eirfa'n llwyddiannus i gyfoethogi'u gwaith, gan gynnwys ansoddeiriau, idiomau a chymariaethau. Mae'r disgyblion hyn yn defnyddio cystrawennau amrywiol yn gywir ac yn ysgrifennu'n ddiddorol i amrywiaeth o bwrpasau.

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, maent yn defnyddio'u medrau rhifedd yn gymwys i ddatrys problemau pob dydd, gan gynnwys pwyso, mesur hyd, trin data a chyfri arian. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhif yn fwriadol ar draws y cwricwlwm. Maent yn trafod data'n wybodus ac yn ei ddefnyddio i greu adroddiadau ar amrywiaeth o destunau. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu adroddiad ar nifer yrymwelwyr sy'n ymweld â chestyll Gwynedd. Mae athrawon yn herio disgyblion mwy abl yn llwyddiannus, trwy weithgareddau pwrpasol sy'n ymestyn eu dealltwriaeth o wahanol gysyniadau rhifedd.

**Argymhelliad 2: Datblygu gweithdrefnau cadarn ar gyfer asesu, a defnyddio'r canfyddiadau er mwyn darparu rhaglenni ymyrraeth priodol i disgyblion.**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r ysgol wedi cymryd camau effeithiol i sicrhau cysondeb yn y defnydd o brosesau asesu ar draws yr ysgol. Defnyddir asesiadau athrawon a chanlyniadau profion safonol yn llwyddiannus i asesu cyflawniad disgyblion ac i adnabod y camau nesaf yn eu dysgu. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i adnabod grwpiau penodol o ddisgyblion ac i ddarparu rhaglenni ymyrraeth ar eu cyfer, gan gynnwys disgyblion mwy abl. Maent yn defnyddio'r system dracio er mwyn olrhain eu cynnydd yn effeithiol iawn. O ganlyniad, mae'r grwpiau penodol hyn yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno rhaglenni ymyrraeth priodol i hybu medrau rhifedd disgyblion sy'n perfformio islaw'r disgwyl. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith hyn ar gyflawniad disgyblion.

Defnyddir rhaglen gyfrifiadurol yn llwyddiannus i olrhain cynnydd disgyblion yn rheolaidd. Mae staff yn cynnal trafodaethau buddiol mewn cyfarfodydd staff er mwyn cynllunio'n bwrpasol ar eu cyfer. Mae athrawon yn cymryd rhan mewn gweithgarwch safoni a chymedroli ynfewnol ac fel clwstwr o ysgolion lleol. O ganlyniad, mae gan athrawon wybodaeth gadarn am lefelau cyrhaeddiad disgyblion.

**Argymhelliad 3: Sicrhau bod gan yr ysgol weithdrefnau diogelu priodol a mynd i'r afael â'r materion diogelwch a'u hamlygwyd yn ystod yr arolygiad**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae arweinwyr yr ysgol wedi mynd i'r afael yn llwyddiannus â'r diffygion o ran yr adeilad a'r gweithdrefnau diogelu disgyblion amlygwyd yn yr arolygiad craidd. Mae'r corff llywodraethol yn monitro'r gweithdrefnau ac yn cyflawni eu dyletswyddau statudol o ran iechyd a diogelwch yn llawn. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi dechrau ar y cyfnod o foderneiddio'r ddau safle, ac mae asesiadau risg ar waith i ymateb i'r sefyllfa.

**Argymhelliad 4: Gwella gweithdrefnau arweinyddiaeth yr ysgol er mwyn sicrhau strwythur staffio sy'n fwy effeithiol**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r pennaeth dros dro wedi gosod gweithdrefnau arweinyddiaeth effeithiol yn eu lle, er mwyn sicrhau strwythur staffio pwrpasol. Mae cyfrifoldebau penodol wedi eu pennu ar gyfer y staff ac mae swydd ddisgrifiadau gwerthfawr wedi eu cadarnhau a'u derbyn gan y corff llywodraethol. Mae lefel atebolrwydd clir i'r strwythur staffio ac mae'r holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau.

Penodwyd dau bennaeth cynorthwyol, ac mae eu swydd ddisgrifiadau yn nodi'n glir eu cyfrifoldebau a phwy sy'n gyfrifol am benderfyniadau ysgol gyfan yn absenoldeb y pennaeth.

Mae'r pennaeth yn datblygu medrau rheolaethol yr uwch dîm rheoli yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn llunio a chyflwyno canfyddiadau o ddadansoddiadau manwl y profion cenedlaethol i staff a llywodraethwyr. Mae cyfarfodydd ffurfiol o'r uwch dîm rheoli yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac mae'r cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau, ac ar wella darpariaeth a rheolaeth yr ysgol. Mae'r strwythur newydd hwn wedi cyfrannu'n fwriadus tuag at welliannau amlwg yn yr arweinyddiaeth. Mae hyn wedi arfogi'r ddwy bennaeth cynorthwyol i gyfrannu'n sylweddol at roi cyfeiriad strategol i'r ysgol. O ganlyniad, mae darpariaeth wedi gwella'n sylweddol ac yn gyson dda ar draws yr ysgol. Mae safonau yn llyfrau rhan fwyaf y disgyblion yn dangos cynnydd da ers yr arolygiad craidd.

Mae gan athrawon gyfrifoldebau penodol ac maent yn datblygu eu medrau rheolaeth ganol yn llwyddiannus. Mae'r profiadau hyn wedi sicrhau datblygiad proffesiynol gwerthfawr iddynt ac wedi codi eu hyder i gyfrannu at ddatblygiadau yn yr ysgol.

Yn dilyn cyfnod o yrru'r newidiadau ei hun, a sicrhau bod staff yn ymateb yn gadarnhaol a gweithio fel tîm, mae'r pennaeth wedi meithrin yr arweinwyr eraill yn ofalus. Maent wedi cael cyfleoedd a phrofiadau bwriadus er mwyn iddynt ddod yn hyderus yn eu rolau rheolaethol newydd. O ganlyniad, maent yn effeithiol yn eu gwaith, mae eu hadroddiadau a'u cyflwyniadau yn drwyadl, ac mae eu gallu i arwain wedi datblygu'n gadarn. Nid yw'r ddwy bennaeth cynorthwyol bellach mor ddibynnol ar y pennaeth dros dro ac mae hyn yn sicrhau bod y prosesau sydd ar waith yn gynaliadwy.

**Argymhelliad 5: Datblygu rôl y llywodraethwyr yng ngweithdrefnau hunan arfarnu'r ysgol a sicrhau bod holl ddogfennau'r ysgol yn bodloni gofynion statudol**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae llywodraethwyr yn datblygu eu rôl yng ngweithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol yn effeithiol. Sefydlwyd is-bwyllgor gwella er mwyn monitro cynnydd yn erbyn y cynllun gwella ôl-arolygiad ac i dderbyn adroddiadau gan ystod o swyddogion allanol. Mae'r is-bwyllgor yn gofyn cwestiynau ystyrlon ac yn herio'r ysgol am ddarpariaeth a safonau. Enghraifft o hyn yw'r herio o ran perfformiad isel mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg, materion diogelu, a sicrhau bod gweithdrefnau addas bellach yn eu lle. O ganlyniad, mae'r corff llywodraethol wedi bodloni eu hunain eu bod wedi ymateb yn llawn i'r materion iechyd a diogelwch a godwyd yn ystod yr arolygiad craidd.

Mae cofnodion y corff llywodraethol yn dangos yn glir y penderfyniadau a wnaed, ac yn amlygu cwestiynau penodol gan aelodau. Enghraifft o hyn yw'r holi am arwyddion cynnar o welliant o ran safonau disgyblion. Maent yn trafod cynnydd yn erbyn argymhellion o adroddiadau monitro ac arfarnu gan bartneriaid cynorthwyol ac ymgynghorwyr allanol yn briodol.

Mae meysydd o gyfrifoldeb penodol wedi eu dyrannu i aelodau'r corff llywodraethol; er enghraifft, mae aelodau dynodedig ar gyfer llythrennedd, rhifedd, anghenion dysgu ychwanegol, amddiffyn plant a gweithredu Siarter Iaith Gwynedd. Mae llawer o lywodraethwyr wedi ymweld â'r ysgol er mwyn datblygu eu gwybodaeth am feysydd penodol, gan gynnwys arsylwi gwersi a monitro materion iechyd a diogelwch. Bu'r aelodau hyn yn ysgrifennu adroddiad cryno ar gyfer yr is-bwyllgor, gan gryfhau rôl y llywodraethwyr yn y broses o hunanarfarnu'r ysgol. Mae angen parhau i roi cyfleoedd cyson i lywodraethwyr ymweld â'r ysgol fel rhan o'r broses hunanarfarnu a pharatoi adroddiadau arfarnol.

Mae'r cadeirydd a nifer o lywodraethwyr yn newydd i'w rolau, ac wedi elwa o dderbyn yr hyfforddiant statudol ar gyfer llywodraethwyr newydd a chadeiryddion. Yn yr un modd, mae gweddill y llywodraethwyr wedi derbyn hyfforddiant manwl er mwyn eu cynorthwyo i ymateb a herio data perfformiad yr ysgol. Mae hyn yn cychwyn cael effaith ar eu heffeithiolrwydd fel corff. Maent wedi derbyn hyfforddiant gan swyddog o'r awdurdod ynglŷn â sut i fod yn llywodraethwyr effeithiol ac mae eu dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau a'u ffocws ar flaenoriaethau yn parhau i ddatblygu.

Bellach, mae polisïau a dogfennau'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol.

**Argymhelliad 6: Datblygu gweithdrefnau hunanarfarnu sy'n gynaliadwy ac yn adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwella yn effeithiol**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r ysgol wedi sefydlu sylfeini cadarn i sicrhau bod prosesau hunanarfarnu effeithiol ar waith er mwyn adnabod cryfderau a materion i'w datblygu. Bellach, mae rhaglen dymhorol sy'n nodi'n glir y gweithgareddau hunanarfarnu. Mae hyn yn

cynnwys arsylwi gwersi, safoni gwaith disgyblion, craffu ar lyfrau a holiaduron disgyblion a rhieni. Cynhaliwyd dadansoddiad o brofion darllen a rhifedd cenedlaethol ar ddiwedd tymor yr haf. Mae'r uwch dîm rheoli, athrawon a llawer o'r corff llywodraethol yn rhan greiddiol o'r broses.

Mae rôl yr uwch dîm rheoli yn y broses hunanarfarnu yn datblygu'n gadarn, er enghraifft trwy gymryd cyfrifoldeb am ddadansoddi data blynyddoedd penodol y disgyblion. Mae cyfleoedd gwerthfawr iddynt adrodd ar ganfyddiadau'r dadansoddiadau i athrawon ac i lywodraethwyr. Mae'r uwch dîm rheoli yn rhoi sylw dyledus i ganlyniadau grwpiau gwahanol o ddysgwyr, er enghraifft disgyblion mwy abl, gan sicrhau cefnogaeth benodol ar eu cyfer. Fodd bynnag, dim ond yn ddiweddar mae'r ysgol wedi cyflwyno rhaglenni ymyrraeth i ddatblygu rhifedd disgyblion ac mae'n rhy fuan i fesur effaith hyn ar gyflawniad disgyblion. Mae mwy o gysondeb yn safon yr adroddiadau sy'n bwydo i mewn i'r adroddiad hunanarfarnu cyfredol. Ar y cyfan, maent yn drylwyr, yn arfarnol ac yn adnabod y cryfderau a'r meysydd i'w datblygu'n gywir. O ganlyniad, mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen werthfawr fel arf strategol i symud yr ysgol ymlaen. Mae'n dangos yn glir bod arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn gwybod yn iawn yr hyn sydd i'w wneud i barhau â'r gwelliant. Mae arweinwyr wedi sicrhau bod darpariaeth wedi gwella'n sylweddol ac yn gyson dda ar draws yr ysgol. Mae'r safonau yn llyfrau rhan fwyaf y disgyblion yn dangos cynnydd da ers yr arolygiad craidd.

**Argymhelliad 7: Gweithredu cynlluniau i wella'r ysgol yn effeithiol**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae arweinwyr wedi gweithredu'r cynllun ar gyfer gwella'r ysgol yn dilyn yr arolygiad yn llwyddiannus. Mae arweinwyr, ynghyd â'r pennaeth dros dro, yn gosod targedau clir ar gyfer cryfhau'r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ac mae staff a llywodraethwyr wedi cydweithio'n effeithiol i sicrhau gwelliant sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae prosesau cadarn yn eu lle sydd yn cael effaith dda ar wella safonau a'r ddarpariaeth.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r ysgol barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud rhagor o gynnydd.